

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## Protocol ar gyfer Aelodau a Benodwyd i Gyrff Allanol

### I. Cyflwyniad

Mae'n bosibl i'r Awdurdod benodi aelodau i ystod o gyrff allanol, gan gynnwys partneriaethau twristiaeth, gweithgorau awdurdodau lleol a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor i'r aelodau hynny a benodwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gynrychioli ar gyrff allanol.

Gall penodiadau o'r fath ddwyn budd i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn nifer o ffyrdd:

- Darparu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd na fyddent ar gael fel arall o bosibl
- Sicrhau y gellir cynnal perthnasoedd da â'r corff
- Cyflawni prosiect mewn partneriaeth sy'n galw am fewnbwn sefydliadau neu grwpiau cymunedol eraill
- Gwarchod buddsoddiadau neu asedau'r Awdurdod, h.y. os yw'r Awdurdod wedi darparu cyllid grant neu'n darparu cyllid i ddarparu gwasanaethau
- Ysgogi cyllid allanol na fyddai ar gael i'r Awdurdod ar ei ben ei hun

Mae nifer o gyrff allanol y gall aelodau gael eu penodi iddynt fel cynrychiolydd yr Awdurdod:

- Corff cenedlaethol neu ranbarthol (e.e. )
- Ymddiriedolaeth Elusennol (e.e. Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog)
- Cwmni cyfyngedig drwy warant (e.e. Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol)

Sut bynnag y caiff y penodiad ei wneud, mae'r gyfraith yn nodi llawer o ofynion y mae'n rhaid i Aelodau gydymffurfio â hwy, a all gynnwys dyletswyddau i'r Awdurdod yn ogystal â dyletswyddau i'r corff allanol a'i aelodau. *Mae hyn yn golygu na fyddwch wastad yn cynrychioli buddiannau'r Awdurdod ar y corff allanol hwnnw, ac y gall fod yn ofynnol ichi weithredu er budd y corff allanol yn hytrach nag er budd yr Awdurdod.*

Ni fyddwch ond yn cael eich ystyried yn gynrychiolydd ar ran yr Awdurdod os ydych wedi cael eich penodi neu eich enwebu'n ffurfiol gan yr Awdurdod i'r rôl hon. Ni ddylech gymryd arnoch eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd ar ran yr Awdurdod ar gorff allanol oni bai fod penodiad ffurfiol o'r fath wedi cael ei wneud.

### 2. Penodi ac Adrodd yn Ôl

Dylai'r rhesymau dros eich penodiad i gorff allanol gael eu gwneud yn glir ar adeg eich penodi. Mae'n bwysig eich bod yn adrodd yn ôl yn rheolaidd wrth yr Awdurdod ar yr hyn y mae'r corff allanol yn ei wneud. Gall hyn fod trwy un neu fwy o'r dulliau canlynol:

- Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd (gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael ar y llyfrgell Modern.gov)
- Cyflwyno adroddiad ar lafar yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod yn y man priodol ar yr agenda
- Gofyn i'r Gwasanaethau Democrataidd lanlwytho adroddiad ysgrifenedig i'r llyfrgell Modern.gov
- Hysbysu swyddogion perthnasol ynghylch unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol o gyfarfodydd allanol a fynychwyd

Bydd angen ichi sicrhau bod y corff allanol yn rhoi gwybodaeth ddigonol ichi i'ch galluogi i gyflwyno'r adroddiad hwn, OND nid yw'n ofynnol ichi ddatgelu unrhyw beth sy'n sensitif yn fasnachol gan y gallai hyn fod yn groes i'r canlynol:

- Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau
- Eich dyletswyddau o ran cyfrinachedd i'r corff allanol (boed fel cyfarwyddwr, ymddiriedolwr neu'n fwy cyffredinol)
- Bod yn dor-cyfrinachedd yn yr ystyr cyffredinol

### **3. Cyngor ac Arweiniad Cyffredinol i Aelodau a Benodwyd i Gyrff Allanol**

- Sicrhewch eich bod yn gwybod beth yw statws cyfreithiol y sefydliad ac yn darllen y ddogfen lywodraethu er mwyn deall eich cyfrifoldebau;
- Sicrhewch, os cewch eich penodi'n gyfarwyddwr cwmni, fod y ffurflen berthnasol (ffurflen 288) yn cael ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau pan gewch eich penodi a phan fyddwch yn ymddiswyddo;
- Gwnewch unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn eich cyfarfod cyntaf (gweler adran 7 isod);
- Gofynnwch a oes unrhyw yswiriant neu indemniad atebolrwydd personol wedi'i sefydlu – y cyfeirir ato weithiau fel yswiriant atebolrwydd cyfarwyddwyr (gweler adran 8 isod);
- Gofynnwch a fydd y sefydliad yn talu lwfansau neu dreulïau (gweler adran 8 isod);
- Sicrhewch fod y bwrdd neu'r pwyllgor rheoli'n cael adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill rheolaidd sy'n manylu ar sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad ac unrhyw rwymedigaethau – cymerwch ddiddordeb yn y cynllun busnes
- Trafodwch unrhyw weithgareddau newydd y mae'r corff allanol yn ymgymryd â hwy gyda'r swyddogion perthnasol (gall fod angen ichi roi copïau o bapurau iddynt) a sicrhewch fod risgiau'n cael eu nodi'n briodol mewn adroddiadau (yn gyson â phrosesau penderfynu awdurdodau lleol – sicrhewch fod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno);
- Ymlynwch wrth ddyletswyddau cyfrinachedd (yn y ddau gyfeiriad) – gweler adran 7 isod;
- Rhowch ystyriaeth ofalus i unrhyw wrthdaro buddiannau, datganwch fuddiannau, ac os yn briodol gadewch yr ystafell tra bo'r busnes yn cael ei ystyried (gweler adran 6 isod);
- Ceisiwch gyngor gan y Swyddog Monitro, yr Adran Gyllid a'r swyddog arweiniol sy'n gweithredu fel eich cyswllt chi fel y bo'n briodol – nid dim ond pan fo'r sefydliad yn debygol o ddod yn fethdalwrus, ond yn gyffredinol. Ar adegau efallai mai'r cyngor hwnnw

fydd eich bod yn ceisio cyngor allanol ynghylch eich sefyllfa, yn enwedig os oes gwrthdaro buddiannau rhwng y sefydliad a'r Awdurdod;

- Rheolwr wrthdaro – fel arfer gellir taro cydbwysedd rhwng materion, ond sicrhewch pan ydych yn gweithredu yng nghyfarfodydd y corff mewn modd sydd er budd pennaf y corff ond nad yw o anghenraid er budd pennaf yr Awdurdod, os yw popeth arall yn methu, eich bod yn ymddiswyddo. Peidiwch â pharhau fel cyfarwyddwr a methu â mynychu cyfarfodydd neu efallai y cewch eich bod yn torri eich dyletswydd i weithredu er budd pennaf y sefydliad hwnnw (gweler adran 6 isod);
- Yn olaf, cwestiynwch yr angen am ymwneud gan yr Awdurdod yn y dyfodol! A yw'r sefydliad wedi cyrraedd ei lawn dwf, neu a yw wedi newid cyfeiriad ers i'r Awdurdod ymwneud ag ef gyntaf – pa ddiben defnyddiol fyddai i gynrychiolaeth barhaus?

#### **4. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penodol Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr**

Os cewch eich penodi'n gyfarwyddwr cwmni yna mae'n rhaid ichi weithredu er budd pennaf y cwmni hwnnw. Prif ddyletswyddau cyfarwyddwr yw:

- Gweithredu'n onest ac â phob ewyllys da ac er budd pennaf y cwmni yn ei gyfarwydd;
- Dyletswydd i beidio â gwneud elw personol ac i gymryd gofal priodol o asedau'r cwmni;
- Mynychu cyfarfodydd y bwrdd a dilyn y rheolau ynglŷn â datgan buddiannau.
- Arfer sgil a gofal rhesymol (prawf goddrychol yw hwn sy'n seiliedig ar wybodaeth a phrofiad yr unigolyn ei hun ac sy'n cynnwys dangos diwydrwydd dyladwy wrth gyflawni dyletswyddau fel cyfarwyddwr);
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a osodir gan y Ddeddf Cwmniau, deddfwriaeth arall ac unrhyw reolau gweithdrefnol a nodir yn y ddogfen lywodraethu.

Os cewch eich penodi'n ymddiriedolwr elusen yna mae dyletswyddau ymddiriedolwyr ar y cyfan yr un fath â dyletswyddau cyfarwyddwr ond yn ogystal â hynny mae'n rhaid ichi sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn gweithredu'n unol â nodau ac amcanion yr ymddiriedolaeth a dylech wneud yn siŵr eich bod yn deall yn glir beth yw'r rhain (fel arfer ceir gweithred ymddiriedolaeth sy'n nodi'r rhain).

#### **5. Dyletswyddau Cyffredinol Cynrychiolydd ar Gorff Allanol**

Wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Ymddiriedolwr neu Gyfarwyddwr ar gyfer corff allanol mae'n rhaid ichi wneud penderfyniadau heb i'r ffaith eich bod yn aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ddylanwadu arnoch. Eich prif ddyletswydd wrth weithredu fel cynrychiolydd sy'n gwneud penderfyniadau rheoli ar ran y corff allanol yw gwneud y penderfyniadau hyn er budd y sefydliad. Dylai aelodau wastad sicrhau bod eu cyd-gyfarwyddwyr/cyd-ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn aelodau o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid ichi weithredu er budd y corff ac arfer crebwyll annibynnol wrth wneud penderfyniadau, yn unol â'ch dyletswydd gofal tuag at y corff. Nid dim ond i bleidleisio yn unol â dymuniadau'r Awdurdod yr ydych chi yno. Gallwch roi ystyriaeth i

fuddiannau'r Awdurdod, ond ni ddylai hyn fod y brif ystyriaeth. Mewn rhai achosion gallai pleidleisio er budd yr Awdurdod olygu eich bod yn torri eich dyletswydd fel cyfarwyddwr cwmni.

Mewn achosion eraill efallai y bydd yr Awdurdod wedi mynegi barn neu lunio polisi ac y byddai'n disgwyl ichi gyfleu'r farn honno neu'r polisi hwnnw i'r corff allanol. Mae'n dderbyniol eich bod yn gwneud hyn fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar yr amod nad yw'n groes i'ch dyletswyddau penodol chi fel cyfarwyddwr neu ymddiriedolwr neu lle mae'n amlwg nad yw'n groes i fuddiannau'r sefydliad.

Y prif gyfrifoldeb yw ceisio osgoi sefyllfa lle ceir gwrthdaro rhwng dyletswydd a buddiant ac felly os ydych yn ansicr ynghylch datgan buddiant, byddai'n ddoeth ei ddatgan a gadael y cyfarfod tra bo'r busnes yn cael ei ystyried.

## **6. Rheoli Gwrthdaro Buddiannau**

Ar y cyfan mae dibenion corff allanol a'r hyn y mae'n dymuno'i wneud yn aml yn cyd-fynd â buddiant yr Awdurdod ac felly mae'n bosibl y bydd achosion o wrthdaro'n brin. Fodd bynnag, gall fod anhawster dan rai amgylchiadau, er enghraifft os nad yw'r corff yn cydymffurfio ag amodau a thelerau cytundeb cyllido rhwng yr Awdurdod a'r corff, neu os yw'r sefydliad yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad cynllunio a wnaed gan yr Awdurdod neu lle mae gan y sefydliad amcanion ehangach na'r rheswm a oedd yn sail i'r penodiad gan yr Awdurdod a'i fod yn dymuno mynd ar drywydd gweithgareddau a fyddai'n gwrthdaro â pholisï'r Awdurdod.

Bydd angen ichi reoli'r gwrthdaro a fydd yn codi mewn modd priodol ac o dan rai amgylchiadau efallai y byddwch yn teimlo mai eich unig ddewis yw ymddiswyddo o'r cwmni neu'r corff. Yn yr un modd os nad yw'r Awdurdod yn teimlo bod cynrychiolydd ar gorff allan yn cyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau'n briodol e.e. os nad yw aelod yn mynychu cyfarfodydd neu os yw'n pleidleisio mewn ffyrdd a allai fod yn amhriodol, yna gall yr Awdurdod ddewis newid ei gynrychiolaeth ar y corff allanol. Yn amlwg mae mwy o gyfle i wrthdaro godi lle'r ydych yn dal swydd ar y corff allanol, e.e. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd neu Drysorydd, na lle'r ydych yn aelod cyffredinol.

## **7. Datganiadau o Fuddiant a Dyletswyddau Cyfrinachedd – y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau**

Pan fo cyrff allanol yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â'ch Cyngor chi neu lle mae gennych chi o bosibl fuddiant personol mewn perthynas â gweithgareddau'r corff, mae angen i'r rhain gael eu datgan yn unol â rheolau'r corff allanol a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Bydd y rheolau penodol a fabwysiadwyd gan bob corff yn amrywio ac felly dylech ofyn am gyngor ac arweiniad gan ysgrifennydd y sefydliad a/neu'r Swyddog Monitro fel y bo'n briodol.

Pan fo'r Awdurdod yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r corff allanol neu'n effeithio ar y corff allanol yr ydych chi wedi'ch penodi iddo fel cynrychiolydd yr Awdurdod, mae'n rhaid ichi

ddatgan eich buddiant personol yn y mater yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os mai hwn yw eich unig fuddiant yna ni fydd yn cael ei ystyried yn fuddiant sy'n rhagfarnu oni bai fod y mater yn ymwneud â chymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad. Bydd angen ichi sicrhau hefyd bod manylion eich penodiad yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Buddiannau sy'n cael ei chadw gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'n rhaid trin gwybodaeth gyfrinachol â gofal ac os ydych yn ansicr o gwbl ynghylch statws unrhyw wybodaeth yna dylech ei chadw'n gyfrinachol a gwirio gyda'r swyddog perthnasol a yw'n wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi neu'n wybodaeth y gellir ei datgelu ai peidio.

Y sefyllfa gyfreithiol yw na chaiff rhywun sydd wedi cael gwybodaeth yn gyfrinachol fanteisio arni mewn modd amhriodol. Bydd datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn fwriadol yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau hefyd.

Lle'r ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar gorff allanol, mae'n rhaid ichi gydymffurfio â Chod Ymddygiad y corff hwnnw, os oes un ganddo. Os nad oes un ganddo, mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau oni bai y byddai ymlynu wrth y Cod yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau eraill (h.y. y ddyletswydd i weithredu er budd pennaf y corff allanol).

O dan y Cod mae'n rhaid ichi beidio â gwneud y canlynol:

- Datgelu gwybodaeth a roddwyd ichi'n gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd yr ydych chi'n credu ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad person sydd wedi'i awdurdodi i'w roi, neu oni bai ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol ichi wneud hynny;
- Atal rhywun arall rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl gyfreithiol iddi.

Gall datgelu gwybodaeth gyfrinachol fod yn groes i rannau eraill o'r Cod hefyd, e.e.

- gellir ystyried ei fod yn dwyn anfri ar swydd aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol; gall beryglu didueddrwydd pobl sy'n gweithio i'r Awdurdod;
- gall roi neu sicrhau mantais neu anfantais i chi neu unrhyw berson arall mewn modd amhriodol

## **8. Lwfansau, yswiriant ac indemnïad**

Efallai y bydd yr Awdurdod wedi awdurdodi presenoldeb yng nghyfarfodydd cyrff allanol fel dyletswydd gymeradwy ar gyfer aelodau, yn unol â Chynllun Lwfansau Aelodau'r Awdurdod. Fel arall, gall unrhyw dreuliau gael eu talu gan y corff ei hun, yn unol â'i reolau ei hun. Os yw'r corff yn talu treuliau, ni allwch hawlio gan yr Awdurdod. I gael mwy o wybodaeth am lwfansau cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

Mewn rhai achosion gall aelodau sy'n cynrychioli'r Awdurdod ar gyrff allanol ysgwyddo atebolrwydd personol am benderfyniadau y maent yn eu gwneud a chatau gweithredu y maent

yn eu cymryd yn eu cymhwyster fel cynrychiolydd. Mae hyn yn fwyaf tebygol o godi os ydych wedi'ch penodi'n gyfarwyddwr cwmni neu'n ymddiriedolwr elusen neu ar fwrdd rheoli sefydliad. Efallai y bydd gan y corff allanol yswiriant ar gyfer eich atebolrwydd chi yn yr achosion hyn a dylech wirio gyda'r sefydliad. Fel arall efallai y bydd yr Awdurdod wedi cytuno i ddarparu indemniad ar gyfer unrhyw atebolrwydd sydd gan aelodau wrth weithredu mewn cymhwyster fel cynrychiolydd. Bydd y Swyddog Monitro'n neu'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn gallu darparu mwy o wybodaeth am hyn.

***DS. Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar Becyn Cymorth CLILC i Aelodau: Penodiadau i Gyrff Allanol: Rôl y Cynghorydd – Canllawiau cyffredinol a chyngor am yr amryw beryglon a meini tramgwydd – a addaswyd ar gyfer defnydd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.***